envirowise

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Wales Assembly Government

Public Sector Waste Minimisation Campaign
Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus
Towards Zero Waste Tuag at Ddyfodol Diwastraff

Croeso i rifyn y Nadolig o gylchlythyr Ymgyrch Lleihau Gwastraff yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (PSWMC) 2010/11. Mae'r rhifyn hwn yn dangos sut y gall help gan yr Ymgyrch leihau eich costau, cynnig awgrymiadau gwych i leihau gwastraff swyddfa y Nadolig hwn ynghyd â chyngor a chymorth i'ch helpu i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.

Gwastraff bwyd wedi'i gompostio yn ffynnu

Cafodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru arian gan yr Ymgyrch yn 2008-09 i brynu Compostiwr ar gyfer gwastraff bwyd ac unrhyw wastraff gwyrdd o'r tir. Caiff yr holl gompost ei ddefnyddio ar welyau blodau'r Llyfrgell gan arbed costau prynu compost hefyd.

Yn ogystal, mae gan bob swyddfa finiau penodol ar gyfer papur, cerdyn, caniau, plastig a gwastraff tirlenwi.

Ni fyddai'r Llyfrgell wedi llwyddo ariannu'r prosiect heb gymorth gan yr Ymgyrch. Yn gyffredinol mae'r llyfrgell wedi torri costau gwastraff a thirlenwi 50% yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Ceir rhagor o wybodaeth ar y wefan, cliciwch yma i ddarllen yr Astudiaeth Achos llawn.

Awgrymiadau gwych ar sut i leihau gwastraff swyddfa y Nadolig hwn:

1. Gofynnwch i'ch arlwywyr ddefnyddio llai o ddeunydd pacio ar gyfer ciniawau yn y swyddfa, gofynnwch iddynt ddarparu crochenwaith y gellir eu hailddefnyddio.

2. Gwnewch eich addurniadau Nadolig eich hun o wastraff y swyddfa - mae'n ymarfer meithrin tîm ac mae'n hwyl.

3. Anogwch staff i ddod â bocsys bwyd diwastraff - defnyddiwch gynwysyddion a fflasgiau y gellir eu hail-ddefnyddio, fel bod llai o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi.

4. Prynwch bapur lapio wedi'i ailgylchu, defnyddiwch fagiau rhoddion neu bapur sgrap o'r swyddfa ar gyfer rhoddion i gydweithwyr. Bydd cymaint â 83 km sgwâr o bapur lapio yn cael ei daflu i finiau sbwriel y DU.

5. Os byddwch yn cynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau mewn lleoliadau allanol, gwnewch yn siŵr eu bod yn darparu biniau ailgylchu a llestri y gellir eu hailddefnyddio.

E-gerdyn Nadolig

Beth am anfon e-gardiau Nadolig eleni i leihau gwastraff papur, arbed amser a lleihau costau? Amcangyfrifir y gallai hyd at 1 biliwn o gardiau Nadolig (17 am bob dyn, menyw a phlentyn) gael eu taflu i finiau ledled y DU ar ôl y Nadolig. Mae e-gardiau yn eich galluogi i anfon mwy o gardiau at fwy o bobl - dim ond eu cyfeiriad e-bost sydd ei angen arnoch!

Cliciwch yma i fynd i'n gwefan i yrru e-gerdyn personol i'ch cwsmeriaid, cydweithwyr, teulu a ffrindiau.

Mae anfon gwastraff bwyd i safleoedd tirlenwi yn cynhyrchu swm anferth o nwy methan - nwy tŷ gwydr sydd â photensial cynhesu byd-eang 21 gwaith yn fwy na charbon deuocsid. Mae adfer gwastraff bwyd a'i ddargyfeirio i ffwrdd o dirlenwi, nid yn unig yn cynnig manteision lleihau carbon ond hefyd yn cynhyrchu compost gwerthfawr a all gael ei ailgyflwyno i'r broses cynhyrchu bwyd.

envirowise

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Public Sector Waste Minimisation Campaign
Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus
Towards Zero Waste Tuag at Ddyfodol Diwastraff

Pob Can yn Cyfrif i'r Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasbortau

Mae staff yn y Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasbortau yng Nghasnewydd eisoes wedi ailgylchu amrywiaeth eang o ddeunyddiau. Nid yn unig roedd gweithio gyda Mae Pob Can yn Cyfrif i godi ymwybyddiaeth o ailgylchu caniau diod wedi rhoi hwb i nifer y caniau a gasglwyd 457%, ond hefyd llwyddodd i gynyddu nifer y deunyddiau eraill a gasglwyd bedwarplyg.

Ers cyflwyno *Mae Pob Can yn Cyfrif* mae ailgylchu caniau diodydd wedi cynyddu o 14kg i 64kg pob chwarter. Dros yr un cyfnod, cododd y swm o blastig a gasglwyd o 15kg i 70kg y chwarter hefyd.

- Cynyddodd lefelau ailgylchu eraill hefyd. Cynyddodd swm y gwastraff cyfrinachol a ailgylchir fwy na 400% o ganlyniad i osod biniau ailgylchu mewn mannau ychwanegol.

Os hoffech gael gafael ar y cymorth gan ymgyrch Mae Pob Cam yn Cyfrif anfonwch e-bost atom i holi am ariannu a chymorth yn public.sector@envirowisewales.org.uk

Adnoddau a Defnyddiol

Mae nifer o adnoddau defnyddiol ar gael i'ch helpu i hyrwyddo lleihau gwastraff ac ailgylchu yn y gweithle. Maent yn cynnwys:

craffamwastraff.org.uk - sydd â chasgliad o ddeunydd hyrwyddo i annog eich staff i fod yn rhan o gynlluniau ailgylchu a chanllawiau ar sut i ailgylchu rhagor o wastraff.

Mae ein Canllaw Cyfatrhebu yn eich helpu i gysylltu'n well â chyflogeion a gwella cyfranogiad mewn cynlluniau ailgylchu.

Mae business.wales.gov.uk yn eich helpu i nodi ffyrdd y gallwch arbed arian drwy droi'n wyrdd.

Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol

Yn ei hanfod, mae Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol yn ymwneud â'r ffordd y mae sefydliad yn ystyried ei effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar y ffordd y mae'n gweithredu. Gall ymrwymo i Gyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol fod o fantais i sefydliadau yn y sector cyhoeddus drwy helpu i adeiladu ar eich enw da a dangos eich ymrwymiad i wella eich amgylchedd lleol a'r amgylchedd ehangach. Gallai mabwysiadu polisi caffael cynaliadwy fod yn ffordd o ddangos eich ymrwymiad i Gyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol.

Mae enghreifftiau o gaffael cynaliadwy cost isel neu ddim cost yn cynnwys:

- Prynu papur wedi'i wneud o bapur wedi'i ailgylchu.
- Sicrhau bod celfi'r swyddfa wedi'u gwneud o ddeunydd a ddaw o ffynhonnell gyfrifol.
- Lleihau gwastraff drwy atal gorarchebu a gwella storio ar y safle.

Os hoffech wybod sut i arfarnu gallu caffael cynaliadwy eich sefydliad a helpu i wella perfformiad eich sefydliad a monitro cynnydd, lawrlwythwch Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy Sector Cyhoeddus Cymru

I gael rhagor o wybodaeth ar sut i ddatblygu eich polisi caffael cynaliadwy eich hun ewch i wefan Swyddfa Masnach y Llywodraeth www.ogc.gov.uk

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus, cysylltwch â ni yn public.sector@envirowise.gov.uk new ewch i'r wefan http://walespublicsector.envirowise.gov.uk/